# Briff y Comisiwn: Adolygiad Llywodraethu a Strwythur Cyfreithiol ar gyfer Dinas Llên yn y DG

## 1. Cefndir

Mae Dinas Llên Aberystwyth yn rhan o Rwydwaith Dinasoedd Creadigol UNESCO byd-eang fel Dinas Llên ddynodedig. Ar hyn o bryd mae'r fenter yn gweithredu fel partneriaeth o sefydliadau lleol, gan gynnwys sefydliadau diwylliannol, awdurdodau lleol, darparwyr addysg, a rhanddeiliaid llenyddol.

Hyd yma, mae gweithgarwch wedi'i gyflawni ar y cyd trwy'r model partneriaeth anffurfiol hwn. Wrth i'r prosiect ddatblygu, mae angen sefydlu strwythur cyfreithiol a llywodraethu mwy cadarn a chynaliadwy a fydd yn:

- Galluogi proses o wneud ceisiadau i gyllidwyr cyhoeddus a dyngarol mawr
- Sicrhau cydymffurfiaeth ac atebolrwydd ariannol cadarn
- Hyrwyddo twf strategol hirdymor
- Egluro cyfrifoldebau llywodraethu, arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau

Mae'r bartneriaeth bellach yn ceisio cyngor proffesiynol ar strwythurau cyfreithiol a threfniadau llywodraethu priodol i gefnogi cam nesaf y datblygiad.

## 2. Diben y comisiwn

Bydd yr ymgynghorydd penodedig yn:

- Adolygu'r strwythur partneriaeth a'r model gweithredu presennol
- Nodi ac asesu opsiynau cyfreithiol a llywodraethu priodol
- Darparu argymhellion ar gyfer strwythur sy'n cefnogi:
    - Cymhwystra i gael cyllid gan gyrff fel Llywodraeth Cymru, y Loteri Genedlaethol (gan gynnwys dosbarthwyr fel Cyngor y Celfyddydau, Cronfa Dreftadaeth, etc.) a chyllidwyr celfyddydau a diwylliant eraill
    - Arferion llywodraethu da a chydymffurfiaeth reoleiddiol
    - Cynaliadwyedd ariannol
    - Gweithio mewn partneriaeth
    - Hygrededd o ran enw da ac annibyniaeth lle bo hynny'n briodol.

## 3. Prif dasgau'r gwaith

Bydd y gwaith comisiwn yn cynnwys:

### 3.1 Arfarnu opsiynau

Dadansoddiad cymharol o ffurfiau cyfreithiol addas, a all gynnwys:

- Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO)
- Cwmni Cyfyngedig trwy Warant (elusennol neu anelusennol)
- Cwmni buddiant cymunedol (CIC)
- Model wedi'i gynnal (e.e. o fewn awdurdod lleol, prifysgol neu sefydliad arall)
- Modelau hybrid neu drefniadau nawdd cyllidol

Ar gyfer pob opsiwn, dylai'r cynghorydd amlinellu:

- Manteision ac anfanteision
- Goblygiadau llywodraethu
- Gofynion adrodd a rheoleiddio
- Goblygiadau cymhwystra ariannu
- TAW ac ystyriaethau treth
- Cyfrifoldebau a rhwymedigaethau ymddiriedolwyr/cyfarwyddwyr
- Trefniadau sefydlu a chostau gweinyddol parhaus

### 3.2 Argymhellion llywodraethu

1. Aelodaeth a chyfansoddiad y Bwrdd
2. Modelau aelodaeth (os yw'n berthnasol)
3. Perthynas â phartneriaid sefydlu
4. Rheoli gwrthdaro buddiannau
5. Mecanweithiau atebolrwydd

### 3.3 Parodrwydd i ariannu

1. Gofynion strwythurol i fodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer prif gyllidwyr y DU
2. Argymhellion ar gyfer polisïau a dogfennaeth ofynnol (e.e. rheolaethau ariannol, diogelu, EDI, polisi amgylcheddol)

### 3.4 Llwybr gweithredu

1. Hoff opsiwn a argymhellir
2. Cynllun gweithredu cam wrth gam
3. Amcangyfrif o amserlenni
4. Cerrig milltir cyfreithiol neu reoleiddiol allweddol

## 4. Cyflawni

- Adroddiad ysgrifenedig yn arfarnu opsiynau

- Crynodeb gweithredol gydag argymhelliad clir
- Cynllun gweithredu
- Cyflwyniad (ar-lein neu wyneb yn wyneb) i’r bwrdd partneriaeth

## 5. Amserlen

Amserlen arfaethedig:

- Penodi: Mis Mawrth
- Adroddiad drafft: 31 Mawrth 2026
- Adroddiad terfynol: 1 Mehefin 2026

## 6. Cyllideb

Y gyllideb ar gyfer y prosiect hwn yw £8,500 yn cynnwys unrhyw TAW sy’n berthnasol. Rhowch ddadansoddiad o’r costau.

## 7. Arbenigedd angenrheidiol

Dylai ymgeiswyr ddangos y canlynol:

- Profiad o gynghori sefydliadau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru yn benodol a hefyd yn y DU
- Arbenigedd mewn cyfraith elusennau a’u llywodraethiant
- Gwybodaeth am strwythurau cyllid cyhoeddus yn y sector diwylliannol
- Profiad o gefnogi sefydliadau sy’n trosglwyddo o bartneriaeth i endid annibynnol
- Dealltwriaeth o fframweithiau rheoleiddio gan gynnwys y Comisiwn Elusennau a Thŷ’r Cwmnïau
- Mae’r gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn fantais amlwg

## 8. Sut i wneud cais

Dylai ymgeiswyr gyflwyno:

- Cynnig sy’n amlinellu methodoleg
- Profiad perthnasol ac astudiaethau achos
- Bywgraffiadau o aelodau’r tîm
- Amserlen arfaethedig
- Dyfynbris ffioedd
- Dau ganolwr

**Dylid e-bostio copi o’ch cais ar ffurf Word neu PDF** at cais@dinasllen.cymru, gyda thestun DINAS LLEN – COMISIWN STRWYTHUR CYFREITHIOL erbyn canol dydd ar 31 Mawrth 2026.

Mae croeso i chi gyflwyno eich cais yn y Gymraeg neu’r Saesneg.